

Addysg / Education



Pennaeth Addysg /
Head of Education – Garem Jackson

☎ (01286) 679089 Ein Cyf / Our Ref:
📄 (01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
✉ GaremJackson@gwynedd.llyw.cymru



9 Gorffennaf 2020

AT: RIENI/OFALWYR PLANT YSGOLION GWYNEDD

Annwyl Riant/Gofalwr

Rydym yn deall pa mor anodd y bu'r misoedd diwethaf i'n dysgwyr, gyda nifer yn pryderu am gollu addysg ac am nad oeddent yn gallu gweld eu ffrindiau a'u hathrawon.

Rydym yn croesawu cynllun y Gweinidog Addysg i ni i gyd baratoi ar gyfer ailagor ein hysgolion yn ddiogel ym mis Medi ac fe fyddwn yn anelu i rannu cymaint o wybodaeth ag y gallwn yn ymwneud â'r trefniadau ar gyfer mis Medi cyn gynted â phosibl.

Fe fydd diwrnodau cynllunio a pharatoi yn cael eu cynnal ar ddechrau'r tymor i adolygu asesiadau risg er mwyn sicrhau y gall ysgolion unigol groesawu disgyblion yn ôl yn ddiogel.

Mae'n bosibl y bydd angen blaenoriaethu rhai grwpiau penodol o ddysgwyr yn ystod pythefnos cyntaf y tymor gydag ymagwedd 'cyflwyno'n raddol' yn cael ei mabwysiadu. Rydym yn gwneud ein cynlluniau i ailagor yn llwyddiannus gan gynnwys cludiant ysgolion ac arlwyyo ysgolion.

O ddydd Llun, 14 Medi fe fydd presenoldeb yn yr ysgol yn orfodol. Gofynnir i rieni/gofalwyr gysylltu â'u hysgol os na all eu plentyn fynychu am unrhyw reswm.

Bydd ailddechrau'r ysgol hefyd yn golygu y bydd y ddarpariaeth ofal ar gyfer gweithwyr allweddol yn dod i ben.

O ystyried yr amgylchiadau anarferol presennol, rydym yn sensitif i'r ffaith y gall gweithwyr sydd wedi eu lleoli yn yr ysgolion a'u teuluoedd fod o dan bwysau ychwanegol eu hunain. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n hysgolion a lleoliadau addysgol i gefnogi pawb yn ystod y cyfnod hwn.

Cadwch lygad ar wefan yr Awdurdod Lleol (www.gwynedd.llyw.cymru) am ragor o wybodaeth os gwelwch yn dda, a hefyd cadwch lygad am ohebiaeth uniongyrchol gan ysgol eich plentyn.

Yn olaf, fe hoffem ddiolch i chi. Mae'r misoedd diwethaf wedi gosod straen ychwanegol ar bawb ac yn arbennig i rieni/gofalwyr sydd wedi gorfod addasu yn gyflym i addysgu eu plant gartref.

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.llyw.uk

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'G. P. Jackson', written in a cursive style.

Garem Jackson
Pennaeth Addysg

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Cemlyn Rees Williams', written in a cursive style.

Y Cyngorydd Cemlyn Rees Williams
Aelod Cabinet – Addysg